Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro

**ar**

# Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin

**Cyngor Sir Gâr,**
**Neuadd y Sir,**
**Caerfyrddin,**
**SA31 1JP**

**Dyddiad yr ymweliad: Rhagfyr 2024**

**by**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod y darparwr wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r darparwr oddi ar y rhestr y darparwyr mewn categori gweithgarwch dilynol.

## Cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad craidd

### A1. Mireinio gweithdrefnau ac arferion arweinyddiaeth strategol yn y bartneriaeth, gan gynnwys sicrhau ansawdd y ddarpariaeth

Mae'r bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn Sir Gaerfyrddin wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu ei gweithdrefnau a'i harferion strategol ar ôl yr arolygiad craidd ym mis Tachwedd 2023. Mae wedi sefydlu grŵp strategol sy'n cynnwys aelodau craidd y bartneriaeth o'r awdurdod lleol, Coleg Sir Gâr, y bartneriaeth sgiliau rhanbarthol a Gyrfa Cymru. Yn yr awdurdod lleol, mae dysgu oedolion yn y gymuned yn rhan o'r gyfarwyddiaeth addysgu, sy'n ei alluogi i gael ei ystyried yn rhan werthfawr a hanfodol o'r continwwm dysgu gydol oes.

Mae'r grŵp strategol wedi datblygu a rhannu gweledigaeth ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned, sydd wedi'i llywio gan gynllun cymunedol yr awdurdod lleol. Mae'r grŵp yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd. Mae agendâu'n canolbwyntio'n dda ar ddefnyddio cryfderau partneriaid i gynllunio darpariaeth i fodloni anghenion dysgwyr cymunedol, er mwyn lleihau dyblygu a chynnig llwybrau dilyniant clir. Mae'r wefan newydd a fabwysiadwyd, sef 'Dysgu Sir Gâr', yn darparu porth hawdd ei we-lywio i ddysgwyr i gyrsiau sy'n cael eu cynnig gan y partneriaid gwahanol ar draws yr awdurdod lleol ac yn caniatáu iddynt gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer dilyniant mewn dysgu.

Mae cylch gorchwyl clir ar gyfer y grwpiau strategol a gweithredol, ynghyd â chofnodion sy'n nodi camau gweithredu ynghyd â therfynau amser i'w cyflawni gan bartneriaid gwahanol, yn galluogi'r bartneriaeth i gadw golwg effeithiol ar gynnydd o ran cyflawni ei chynlluniau a sicrhau bod momentwm i'w gwelliannau. Y coleg sydd â'r rôl arweiniol o ran coladu a dadansoddi data. Mae hyn yn ddefnyddiol i'r bartneriaeth o ran gwirio cynnydd yn erbyn ei thargedau ac o ran nodi cryfderau a blaenoriaethu meysydd i'w gwella.

Mae partneriaid wedi alinio eu cylchoedd ansawdd. Mae datblygu proses arsylwi ar y cyd â gwaith papur a disgwyliadau cyffredin yn profi'n fuddiol o ran sicrhau disgwyliadau uchel ar gyfer ansawdd addysgu a dysgu ar draws y bartneriaeth. Mae hefyd yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth partneriaid o anghenion gwahanol dysgwyr a'r arddulliau addysgu gwahanol sydd eu hangen mewn dysgu cymunedol o gymharu â'r rhai mewn dysgu mwy ffurfiol.

Mae prosesau safoni effeithiol yn helpu tiwtoriaid ac arweinwyr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o ansawdd a thargedau ar gyfer datblygu a gwella. Mae'r broses yn darparu ar gyfer nodi meysydd i'w gwella y mae angen mynd i'r afael â nhw, gan ddatblygu darpariaeth o safon gytûn ar draws y bartneriaeth.

Mae'r gweithdrefnau a'r arferion hyn yn cael effaith. Mae tiwtoriaid yn gwerthfawrogi ailddatblygu'r bartneriaeth gan ei fod yn eu galluogi i gysylltu â sefydliadau eraill a darparu gwasanaeth mwy cyd-gysylltedig i ddysgwyr. Mae tiwtoriaid yn gwerthfawrogi'r datblygiad proffesiynol sy'n cael ei gynnig trwy aelodau gwahanol o'r bartneriaeth gan ei fod yn eu cyflwyno i ystod ehangach o hyfforddiant proffesiynol a mwy o gyfle i ganolbwyntio ar eu hanghenion a'u diddordebau personol o ran datblygiad proffesiynol.

Mae arweinwyr gweithredol a thiwtoriaid yn croesawu'r ffaith bod ganddynt, trwy ddatblygiad y bartneriaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, ddealltwriaeth well o'r rhwydwaith ehangach sy'n cynnig dysgu yn y gymuned, a'u bod yn cyfathrebu mwy ag ef.

## A2. Datblygu a hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae'r bartneriaeth wedi gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu a hybu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'r cyfleoedd cyfyngedig a oedd ar gael i ddysgwyr adeg yr arolygiad craidd ym mis Tachwedd 2023. Mae wedi cysylltu â sefydliadau ar draws yr awdurdod lleol sydd eisoes yn cynnig cyfleoedd i bobl ddysgu naill ai'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae wedi creu cysylltiadau â'r rhai yn y tîm gwella ysgolion sy'n darparu dysgu i deuluoedd mewn ysgolion dwyieithog a chyfrwng Cymraeg a'r rhai sy'n cynnig rhaglenni fel Adam yn yr Ardd, lle mae rhieni a phlant yn archwilio pynciau rhifedd yn y cwricwlwm cynradd yn yr awyr agored trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn dwy ysgol arall, mae wyth rhiant sydd am loywi eu hiaith i gefnogi datblygiad Cymraeg eu plant yn mynychu chwe sesiwn hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar ddiwedd eu cwrs, caiff eu cyflawniadau eu dathlu â thystysgrif a llyfr yn Gymraeg.

Trwy'r Fenter Iaith, mae'r bartneriaeth wedi cysylltu â dysgwyr â lefelau gwahanol o Gymraeg sy'n dysgu mewn dosbarthiadau anffurfiol, fel Clwb Clonc, sydd wedi'i fwriadu ar gyfer dysgwyr a oedd yn medru'r Gymraeg ond sydd wedi colli rhywfaint o'r iaith, a'r rhai sydd am ddilyn dosbarthiadau crefftau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar gyfer y rhai sydd am loywi eu Cymraeg, mae cyfleoedd i wirfoddoli ar gyfer gweithgareddau fel dosbarthu pryd ar glud neu weithio mewn siop leol. Mae cyfleoedd ychwanegol ar gael trwy bresgripsiynau cymdeithasol, lle mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio'n systematig â theulu ar themâu amrywiol trwy gyfrwng y Gymraeg.

O'i gampws yng Ngheredigion, mae'r coleg yn cynnig darpariaeth fwy ffurfiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff y ddarpariaeth hon ei chynnig fel cymysgedd o wyneb-yn-wyneb ac ar-lein.

Er bod y niferoedd a nodwyd sydd eisiau dysgu'n fwy ffurfiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn isel o hyd, mae'r cysylltiadau rhwng y bartneriaeth a sefydliadau sy'n gweithio

drwy gyfrwng y Gymraeg o fudd i'r ddwy ochr. Maent yn helpu'r partneriaid i bennu lefel y diddordeb a'r angen am ddysgu dwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr awdurdod lleol a sicrhau bod y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn cyrraedd cynulleidfa ehangach.

**Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**